OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2840 (Cy.256)

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*25 Hydref 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 57(1), (3), (6) a (7) a 64(6) o Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Tachwedd 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i Reoliadau 2004

2. Diwygir Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004(**2**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 3—

(i) ym mharagraff (1) hepgorer y geiriau "a os daw o fewn disgrifiad ym mharagraff (2);";

(ii) hepgorer paragraff (2);

(b) yn rheoliad 5(1) hepgorer y geiriau o "sy'n dod o fewn" i "(2)(b) o'r rheoliad hwnnw".

(**1**) 2001 p.15. Mae adran 66 o Ddeddf 2001 yn diffinio "rheoliadau" fel "rheoliadau wedi'u gwneud gan yr awdurdod perthnasol" a'r "awdurdod perthnasol" fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr). *Gweler* adran 57(8) o Ddeddf 2001 i gael y diffiniad o "prescribed".

(**2**) O.S. 2004/1748